HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru **diogelach**

NORTH WALES POLICE
A **safer** North Wales




# Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned







## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
## 31ain Mawrth 2012

yn cefnogi cymunedau ar hyd a lled Gogledd Cymru
PACT
supporting communities across North Wales

Incorporating Crimebeat

TRECHU TROSEDD CRIMEBEAT

# Cynnwys


Aelodau'r Bwrdd Ymgynghorwyr Proffesiynol ..... 2

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ..... 3

Adolygiad o Weithgaredd ..... 4

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ..... 9

Datganiad o Weithgaredd Ariannol ..... 10

Mantolen ..... 11

Nodiadau ar y Cyfrifon ..... 12

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol ..... 17

Atodiad

1. PACT: Prif Grantiau ..... 18
2. PACT: Cronfa Grantiau PACT Cronfa Grantiau Bach ..... 19
3. YMGYRCH B.A.N.G. Tachwedd 2011 ..... 21
4. Grantiau'r Pasg 2012 ..... 25
5. Grantiau Trechu Trosedd Clwyd ..... 28

   Grantiau Trechu Trosedd Gwynedd ..... 29
6. Trustees ..... 30










# Aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd** | Trefor Jones CBE LL |
| **Board of Trustees** | Mark Polin, QPM, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru |
| | Patricia Hughes D.L. |
| | Y Fon Janet Jones Y.H., D.L. |
| | David W Williams D.L. |
| | E.F. Lloyd Fitzhugh O.B.E., Y.H., D.L., |
| | Yr Athro Robin Grove-White (ex-officio 01/04/11 – 31/03/12) |
| | Cyngh Ian Gunning M.B.E, Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru |
| | David Hinchliffe (Trysorydd Anrhydeddus) |
| | Steve Thomas, Swyddog Gweithrodol Materion y Llywodraeth, Airbus UK |
| **Rheolwr Prosiect / Cydlynydd Trechu Trosedd** | D.V. Evans |
| **Eiddo** | Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned Gogledd Cymru, Ffordd William Morgan Parc Busnes  Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0HQ |
| **Bancwyr** | Banc HSBC PLC, 60 Stryd Mostyn, Llandudno, Gwynedd LL30 2SF |
| **Archwilydd Annibynnol** | Gardners Chartered Accountants,Brynford House, 21 Brynford Street, Treffynnon, Sir y Fflint, CH8 7RD |

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Mae'n bleser gan yr Ymddiriedolwyr gyflwyno eu hadroddiad a datganiadau ariannol yr elusen ar gyfer y cyfnod o ddeuddeng mis yn diweddu 31 Mawrth 2012.

## Amcanion

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at yr arweiniad a gynhwysir yn arweiniad cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr Ymddiriedolaeth ac wrth gynllunio gweithgareddau'r dyfodol a gosod y polisi grantiau ar gyfer y flwyddyn. Ym mhob gweithgaredd nod yr Ymddiriedolaeth yw codi proffil Diogelwch Cymunedol, a thrwy ddiogelu pobl ac eiddo, lleihau ofn trosedd yn sylweddol ac yn sgil hynny wella ansawdd bywyd ledled y rhanbarth. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- Hyrwyddo mentrau atal trosedd
- Hyrwyddo Diogelwch y Ffyrdd fel rhan annatod o fywyd pobl Gogledd Cymru trwy hyfforddiant, addysg, cyhoeddusrwydd a phrosiectau arbennig.
- Addysgu pobl Gogledd Cymru ar faterion cysylltiedig â chyffuriau, alcohol a sylweddau eraill a thrwy hynny helpu i leihau troseddau cysylltiedig â chyffuriau.

## Cyfansoddiad

Lansiwyd Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned ar 14eg Hydref 1998. Mae'r Ymddiriedolaeth yn elusen gofrestredig dan Ddeddf Elusennau 1993. Rhif cofrestru'r elusen yw 1071628.

## Dogfennau Llywodraethu

Llywodraethir yr Ymddiriedolaeth gan y Datganiad o Ymddiried (Gweithred Ymddiried) a wnaed yn ffurfiol ar 9 Medi 1998.

## Trefniadaeth yr Elusen

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael ei redeg gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Yn unol â'r Datganiad o Ymddiried, dylai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, pan yn gyflawn, gynnwys hyd at dri ymddiriedolwr ar ddeg sy'n cynrychioli Heddlu Gogledd Cymru, Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, y sector busnes ac Uchel Siryfion Clwyd a Gwynedd.

## Eiddo

Ymgymerir â gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth o'r swyddfeydd isod

Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned
Ffordd William Morgan
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0HQ

## Cyfyngiadau ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth

Mae gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn gyfyngedig i'r amcanion a amlinellir yn y Datganiad o Ymddiried fel y'i cymeradwywyd gan y Comisiynwyr Elusennau. Mae'r ardal all fanteisio ar weithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn gyfyngedig i Ogledd Cymru.

## Polisi Cronfeydd wrth Gefn

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o ofynion y Comisiwn Elusennau parthed Cronfeydd wrth Gefn. Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu lefel cronfeydd wrth gefn yr Ymddiriedolaeth ac yn fodlon eu bod wedi'u cadw ar lefel dderbyniol er mwyn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu'n effeithiol.

## Archwiliad Annibynnol

Yn unol â Datganiad Ymddiried gwreiddiol PACT, mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau, gan fod trosiant blynyddol yr Ymddiriedolaeth yn llai na £250,000, bod angen Archwiliad Annibynnol. Pe bai trosiant yr Ymddiriedolaeth yn mynd dros y lefel hon yna bydd angen Awdit llawn.





# Adolygiad o Weithgaredd - Adroddiad Blynyddol Mawrth 31ain 2012

## Amcanion Elusennol PACT:

- Hyrwyddo gwell ansawdd bywyd drwy atal a lleihau trosedd ac ofn trosedd a diogelu pobl ac eiddo rhag trosedd.
- Hyrwyddo addysg i atal y camddefnydd o gyffuriau ac alcohol ac yn sgil hynny leihau trosedd.
- Hyrwyddo diogelwch y ffyrdd fel rhan annatod o fywyd cymunedau Gogledd Cymru.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi ymrwymo i gefnogi'r amcanion uchod ac mae datblygiad parhaus PACT yn adlewyrchu hyn. Drwy gydol y deuddeng mis diwethaf mae'r Ymddiriedolwyr wedi parhau i weithio'n agos â Heddlu Gogledd Cymru er mwyn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cefnogi prosiectau sy'n atal ac yn datrys troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio ar ein cymunedau.

Bu'r flwyddyn aeth heibio yn arbennig o lwyddiannus o ran noddi a datblygu prosiectau a daeth i ben gyda'r fenter Cyfiawnder mewn Diwrnod gyffrous a gyflwynwyd i 800 o bobl ifanc yng Ngogledd Cymru.

Bydd y llwyddiant hwn yn galluogi PACT i barhau i ddatblygu'r mentrau y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn yn ogystal â mentrau newydd.

## PACT Gydag 800 O Bobl Ifanc Ar Draws Gogledd Cymru 'Cyfiawnder Mewn Diwrnod'

Eleni, mewn partneriaeth â Clwyd Theatr Cymru, trefnodd PACT gyfres o weithdai drama rhyngweithiol wedi'u hanelu at ddangos i bobl ifanc beth yw canlyniadau trosedd. Teitl y gweithdy oedd Cyfiawnder Mewn Diwrnod a'i nod oedd atal pobl ifanc rhag cael eu tynnu i mewn i weithgaredd troseddol.

Roedd y gweithdai a gyflwynwyd dros bum wythnos yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth eleni yn edrych ar ymosodiadau pobl ifanc yn erbyn ei gilydd o ganlyniad i fwlio 'seibr' neu drwy negeseuon testun ac fe'i cyflwynwyd i 800 o ddisgyblion blwyddyn 9 mewn 50 o Ysgolion Uwchradd ar draws gogledd Cymru.



Roedd y gweithdai, dan arweiniad Emyr John, Gweithiwr Drama Allgymorth yng Nghlwyd Theatr Cymru, yn dilyn hynt cymeriad o'r enw Alex o'r amser cyn iddo gyflawni trosedd drwodd i'w dreial a'i garchariad ac yn edrych yn benodol ar effaith yr hyn a wnaeth ar ei deulu, ei ffrindiau a'r dioddefwr. Roedd y ddrama oedd yn rhan o'r gweithdai yn cael ei pherfformio gan ddau actor proffesiynol, Richard Shackley a Claire Barron.

Roedd natur ryngweithiol y prosiect yn galluogi pobl ifanc i fod yn rhan o ymchwiliad gonest, didwyll ac agored i ganlyniadau gweithredoedd troseddol. Treuliodd pob ysgol ddiwrnod llawn yn y gweithdai arbennig a oedd yn cynnwys ail greu sesiwn mewn Llys a chyfle i drafod dedfrydu a'i effeithiau gydag Ynad.

Gwnaed Cyfiawnder Mewn Diwrnod yn bosibl gyda nawdd gan Comtek Network Systems Ltd, Magnox, Cronfa Addysg Thomas Howell, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a noddwr o ardal Wrecsam, ynghyd â chefnogaeth gan Swyddogion Cyswllt Ysgolion Gogledd Cymru, Prifysgol Glyndŵr, Ynadon Gogledd Cymru a Gwasanaeth Llysoedd ei Mawrhydi.

Roedd yn ymddangos o'r ffordd yr oedd y myfyrwyr yn cyfranogi yn y gweithdai eu bod yn deall y cynnwys yn iawn ac yn mwynhau'r profiad yn fawr. Yn 2013 rydym yn gobeithio lledaenu'r gweithdai ledled ardal yr Heddlu a gweld Cyfiawnder Mewn Diwrnod yn ddigwyddiad blynyddol ar galendr au ysgolnon galendrau ysgolion.

Dyma ychydig o'r adborth a gawsom o'r ysgolion:

Meddai Gary Sugrue, Dirprwy Bennaeth Ysgol Gatholig Blessed Edward John yn y Rhyl: "Diwrnod gwych oedd yn gwneud i rywun feddwl. Roedd y gweithdai a'r rhyngweithio â'r myfyrwyr yn ardderchog. Rwy'n sicr y bydd ein myfyrwyr a'u hathrawon wedi dysgu llawer yn ystod y diwrnod."

Meddai Gareth Jones, Pennaeth Ysgol Botwnnog: "Gweithdy llawn gwybodaeth. Mae hunan barch y disgyblion wedi cynyddu ar ôl y diwrnod ac maen nhw wedi dechrau meddwl am y gyfraith a chanlyniadau dewisiadau personol".

## Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu

Eleni mae PACT wedi rheoli £36,000 ar ran Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, sydd wedi galluogi'r ymddiriedolwyr i gefnogi 10 prosiect gyda nawdd o £9,343 yn ychwanegol at gefnogi Timau Plismona Cymdogaethau gyda grantiau gwerth cyfanswm o £9,583 drwy ein Cronfa Grantiau Bychan.

Mae'r prosiectau wedi cynnwys:

- Bugeiliaid Stryd Bangor
- Menter Taclo Cyffuriau Drwy Bêl-droed Conwy
- Bus-Stop, rhaglen addysgol allgymorth i bobl ifanc Conwy a Sir Ddinbych
- Parthau Dim Galwyr Digroeso Ynys Môn
- Cynllun Gwarchod Coetiroedd
- Cymorth i Ddioddefwyr
- Rhaglen addysgu pobl ifanc am ddiogelwch y ffordd
- Point FM, y Rhyl - ymgysylltiad â radio cymunedol
- Grwp Diogelwch Cymunedol Llangollen - cymorth i gefnogi eu cynllun Gwarchod Busnesau
- Dros 200 o grantiau bach dros y flwyddyn ar gyfer Timau Plismona Cymdogaethau ar draws gogledd Cymru

Mae llawer o'r prosiectau uchod wedi cael sylw yn y cyfryngau lleol ar ôl i erthyglau ymddangos ar wefannau PACT a Heddlu Gogledd Cymru.

Unwaith eto rydym wedi gweld bod rheolaeth Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu wedi galluogi PACT i gael nawdd o ffynonellau eraill, gan gynnwys yn benodol £8,500 ar gyfer y rhaglen Cyfiawnder Mewn Diwrnod yn ogystal â nawdd o £21,000 ar gyfer Ymgyrch BANG ac Ymgyrchoedd Grant y Pasg.


Mae'r Ymddiriedolwyr a PACT yn hynod o ddiolchgar i Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru am ei gefnogaeth barhaus.

## Cronfa Grantiau Bychan Timau Plismona Cymdogaethau

Mae'r Gronfa Grantiau Bychan yn parhau i fod yn hynod o boblogaidd gyda Thimau Plismona Cymdogaethau ac mae'n declyn gwerthfawr o ran eu helpu nhw i gefnogi grwpiau cymunedol lleol. Cefnogwyd 40 o geisiadau am grantiau bychan eleni, sef cyfanswm o dros £9,500.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol ein nod gyda'r ffynhonnell hon o nawdd yw rhoi dull effeithiol i Dimau Plismona Cymdogaethau ar draws Gogledd Cymru o gefnogi mentrau ymgysylltiad cymunedol gyda symiau cymharol fechan o nawdd (hyd at £250) drwy broses ymgeisio syml.

*Mae'r siart isod yn dangos lledaeniad daearyddol y grantiau eleni (yn seiliedig ar £werth y grantiau). Mae cymariaethau blwyddyn ar flwyddyn yn dangos fod gweithgarwch yn Ninbych a Gwynedd ychydig yn llai nag yr oedd yn 2010/11 ac rydym yn gobeithio gweld datblygiadau yn ardaloedd hyn yn 2012/13.*
























## YMGYRCH B.A.N.G. ( Be A Nice Guy) 2011

Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol i PACT weithio gyda Thîm Lleihau Llosgi Bwriadol gogledd Cymru (menter ar y cyd rhwng Heddlu gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub gogledd Cymru) i sicrhau a gofalu am nawdd ariannol i gefnogi mentrau cymunedol dros gyfnod Nos Galan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt.

Mae'r rhaglen nawdd hon yn parhau i fod yn hynod boblogaidd gydag aelodau o Dimau Plismona Cymdogaeth. Adlewyrchir hyn yn y ffaith fod y nawdd y mae PACT wedi'i sicrhau wedi cynyddu bob blwyddyn - £6,000 yn 2009/10, £10,000 yn 2010/11 ac £14,000 eleni.


Roedd y mwyafrif o geisiadau 'Ymgyrch BANG' eleni yn cefnogi digwyddiadau cysylltiedig â Nos Galan Gaeaf, gyda llai na thraean yn gysylltiedig ag arddangosfeydd Tân Gwyllt ayyb.

Roedd llawer o'r mentrau eleni yn cynnwys addysg am ddiogelwch gyda thân gwyllt a choelcerthi mewn gweithgareddau lleol gyda phobl ifanc gan amlygu themâu penodol, gan gynnwys:

- Iechyd a Diogelwch - trafod peryglon tân gwyllt a choelcerthi
- Diogelwch y ffyrdd - y perygl cynyddol i bobl ifanc sy'n cerdded ar y ffyrdd mewn dillad tywyll ar strydoedd tywyll
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghyd-destun chwarae 'Cast neu Geiniog' gyda phwyslais arbennig ar barch tuag at drigolion mewn oed nad ydynt efallai eisiau i bobl ifanc ddod at eu drysau.
- Diogelwch Personol, yn arbennig mewn perthynas â'r peryglon cysylltiedig â phlant yn mynd i mewn i dai pobl ddieithr wrth find allan i chwarae 'Cast neu Geiniog'.

Meddai Kevin Jones, Rheolwr Lleihau Llosgi Bwriadol: "Mae'r tîm yn falch o fod yn gweithio mewn partneriaeth â PACT. Mae'r prosiect wedi galluogi'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol i ffurfio perthynas waith agosach â'r Timau Plismona Cymdogaeth er mwyn lleihau achosion o gynnau tân yn fwriadol, ymddygiad gwrthgymdeithasol â'r troseddau cysylltiedig.

*Gwnaed 81 grant gwerth cyfanswm o £15,126 ac maent wedi'i dadansoddi isod yn ôl sir:*




## Ymgyrch Grantiau Bychan y Pasg 2012

Eleni fe lansiwyd ein Hymgyrch Grant Bychan y Pasg cyntaf sydd wedi'i ddylunio, mewn partneriaeth â'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol, i fynd i'r afael â materion ymddygiad gwrthgymdeithasol dros gyfnod gwyliau'r Pasg.

Roedd modd i Dimau Plismona Cymdogaethau wneud ceisiadau am grantiau o hyd at £200.00 i gefnogi ymgysylltiad â phobl ifanc ac i ddarparu gweithgareddau dargyfeiriol ar eu cyfer, megis digwyddiadau awyr agored a digwyddiadau wedi'u trefnu'n arbennig a gynhaliwyd ar adegau sydd, yn hanesyddol wedi gweld cynnydd mewn digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol.


I fod yn gymwys ar gyfer y grant roedd yn rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn ceisio mynd i'r afael ag un o'r canlynol:

- Tanau bwriadol, yn arbennig tanau yng nghefn gwlad
- Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Difrod Troseddol
- Neu fenter i fynd i'r afael â phroblem sy'n dod i'r amlwg

Manteisiodd llawer o ymgeiswyr ar y cyfle i gynnwys gweithdai addysgol yn eu mentrau. Roedd y rhain yn amrywio o weithdai ar beryglon yfed dan oed a chamddefnyddio cyffuriau i weithgareddau adeiladu tîm mewn ysgolion lleol ac ymgyrchoedd codi sbwriel cymunedol gyda chlybiau ieuenctid.

Meddai Rhingyll Melanie Brace o'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol: "Dyma'r tro cyntaf i ni redeg y prosiect hwn dros y Pasg, ac mae'n dilyn prosiect BANG llwyddiannus arall. Bydd y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol yn parhau i annog Timau Plismona Cymdogaethau i gynnwys elfen o addysg diogelwch tân yn y broses i gyd-fynd â'r neges diogelwch tân a gyhoeddir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub".

*Cyflwynwyd 44 o grantiau gwerth cyfanswm o £8,025, a gellir eu dadansoddi fesul sir ar sail £gwerth fel a ganlyn:*




## Gwobr Trechu Trosedd Yr Uchel Siryf

Mae Trechu Trosedd yn annog pobl ifanc i ddatblygu prosiectau yn eu cymunedau fydd yn helpu i atal a lleihau trosedd ac i wella'r gymuned yn gyffredinol.

Amcanion y gronfa yw:

- Cadw pobl ifanc allan o drybini
- Cefnogi dioddefwyr trosedd
- Ysgogi diddordeb mewn gwaith gwirfoddol
- Atgyfnerthu cymunedau lleol
- Gwella ymddygiad a phresenoldeb yn yr ysgol

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Uchel Siryfion Clwyd a Gwynedd, am yr ail Flwyddyn yn olynol, wedi codi dros £17,000 i alluogi pobl ifanc i ddatblygu prosiectau cymunedol ac maent wedi buddsoddi dros £13,000 mewn 38 o brosiectau pobl ifanc ar draws Cymru.

Mae'r Gwobrau Trechu Trosedd blynyddol yn parhau i amlygu'r goreuon ymhlith y prosiectau hyn, ac mae'r seremonïau gwobrwyo yn rhoi cyfle i Uchel Siryfion Gwynedd a Chlwyd gydnabod gwaith y bobl ifanc sy'n cyfrannu mor bositif yn eu cymunedau.

Cynhaliwyd y seremonïau eleni yng Nghanolfan Gymunedol David Hughes, Biwmares a Choleg Iâl, Wrecsam lle gwelodd dros 160 o westeion nifer o grwpiau pobl ifanc yn cael cydnabyddiaeth, gan gynnwys:

- Digartref Ynys Môn - 'Prevention is Better Than Cure'
- Balchder Cymunedol y Fali
- Ysgol Uwchradd Tywyn
- Clwb Ieuenctid Llandudno - prosiect "Dywedwch Na"
- Cyngor Ieuenctid Saltney
- Prosiect Ieuenctid Dinbych
- Ysgol Gynradd Brynteg - cynllun gwrth fwlio Ffrindiau Cae Chwarae

Yr enillwyr hollgynhwysfawr oedd:

**Trechu Trosedd Gwynedd** - Digartref Ynys Môn 'Prevention is Better Than Cure' a oedd yn gweithio gyda phobl ifanc ddigartref Ynys Môn i edrych ar y cysylltiadau rhwng digartrefedd a throsedd a cheisio mynd i'r afael â'r broblem. Roedd y fenter hefyd yn cynnwys ymweliad â Charchar Altcourse.

**Trechu Trosedd Clwyd** - Prosiect 'Dywedwch Na' Clwb Ieuenctid Llandudno. Bu pobl ifanc o glwb ieuenctid Llandudno a'r cyffiniau yn gweithio gyda cherddor proffesiynol/DJ i ysgrifennu a recordio caneuon rap i geisio annog pobl ifanc i beidio yfed dan oed, camddefnyddio cyffuriau nac ymddwyn yn wrthgymdeithasol.

Mae Trechu Trosedd yng Ngogledd Cymru yn dathlu ei ben-blwydd yn 10 oed yn 2012, ac mae eisoes nifer o ddigwyddiadau'n cael eu trefnu i dynnu sylw at y cyrhaeddiad hwn.









## Taith Uchel Siryf Gwynedd o Amgylch Ynys Môn



Ar 15 diwrnod yn olynol, rhwng 17eg a 31ain Mawrth 2012 bu Uchel Siryf Môn a Gwynedd, yr Athro Robin Grove-White, ar daith gerdded 125 milltir ar hyd llwybr arfordirol Ynys Môn i godi arian i Trechu Trosedd. Bydd yr arian yn cael ei fuddsoddi mewn mentrau ieuenctid ar yr Ynys, yn arbennig felly mentrau sy'n cefnogi pobl ifanc ddiamddiffyn.

Ymunodd dros 600 o bobl â'r Uchel Siryf a'i wraig Helen ar wahanol gamau o'u taith, gan gynnwys Albert Owen AS, Ieuan Wyn Jones AC, nifer o farnwyr, cefnogwyr, cyfeillion, sawl aelod o sefydliadau gwirfoddol a grwpiau o bobl ifanc ddi-waith.

Cododd y daith dros £16,000 o bunnoedd.

## Casgliad

Yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2011 siaradom am y cyfleoedd a ddeuai yn sgil y prosiect Cyfiawnder Mewn Diwrnod.

Yn 2012 rydym eisoes wedi gweld nifer o'r cyfleoedd hyn yn cael eu gwireddu ac mae PACT, yn sgil strategaeth yr Ymddiriedolwyr o ddatblygu ein brand unigryw ein hunain, wedi llwyddo i gael dros £53,000 o nawdd yn ystod y flwyddyn i gefnogi Cyfiawnder Mewn Diwrnod.

O gyfuno hyn a'r cronfeydd oedd eisoes mewn llaw ar gyfer prosiectau, ac arian a addawyd/gadarnhawyd ar gyfer 2012/13 i gefnogi Cyfiawnder Mewn Diwrnod, mae'r Ymddiriedolaeth rŵan ar y trywydd iawn, nid yn unig i ddarparu'r prosiect hwn eto, ond hefyd i fod yn hunangynhaliol a thrwy hynny leihau lefel y gefnogaeth y bydd yr Ymddiriedolaeth ei hangen gan yr Awdurdod yn y blynyddoedd i ddod.

Daeth yn amlwg wrth ddarparu Cyfiawnder Mewn Diwrnod bod angen a galw am y prosiect yn yr ysgolion ac mae'r ffaith ein bod wedi cyrraedd 800 o bobl ifanc eleni yn brawf o'r galw hwnnw. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried, wrth symud ymlaen, fod gan Cyfiawnder Mewn Diwrnod y potensial i fod yn rhan gydnabyddedig o gwricwlwm ysgolion Gogledd Cymru.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ymrwymo i sicrhau bod gwaith PACT yn cefnogi blaenoriaethau plismona Heddlu Gogledd Cymru ac i'r diben hwn mae gweithdai Cyfiawnder Mewn Diwrnod, sydd wedi'u dylunio i addysgu pobl ifanc am ganlyniadau troseddu, yn gwneud atal trosedd yn flaenoriaeth.

Mae'r flaenoriaeth hon hefyd yn allweddol o ran denu nawdd ariannol o ffynonellau allanol, yn arbennig y sector busnes, sydd wedi bod yn hollbwysig i'n llwyddiant eleni.

Mae ein gwaith gyda Thimau Plismona Cymdogaethau hefyd wedi'i ddylunio i gynnal y Blaenoriaethau Plismona ac i gefnogi swyddogion yn eu gwaith ar lawr gwlad. Mae'r galw cyson am arian ar gyfer mentrau lleol o'r Gronfa Grantiau Bychan yn brawf o hyn.

Hoffai'r Ymddiriedolwyr ac Uchel Siryfion Gwynedd a Clwyd unwaith eto fynegi eu diolch i aelodau Awdurdod yr Heddlu am eu cefnogaeth a'u hymglymiad parhaus i PACT yn ystod y deuddeng mis diwethaf, ac edrychwn ymlaen at ragor o lwyddiannau a phartneriaethau yn ystod y flwyddyn i ddod.

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob cyfnod ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o weithgareddau'r elusen yn ystod y flwyddyn, a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn mae'n ofynnol iddynt ddilyn arfer gorau a:-

- dethol polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith mewn dull cyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a phwyllog;
- datgan a ddilynwyd y safonau cyfrifyddu a'r datganiadau arfer argymelledig, yn amodol ar unrhyw amrywiadau a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol;
- paratoi datganiadau ariannol ar sail busnes sydd ar y gweill oni bai ei bod yn amhriodol cymryd y bydd yr elusen yn parhau i fod yn weithredol.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol beth yw sefyllfa ariannol yr elusen ac a fydd yn eu galluogi i weld beth yw sefyllfa ariannol yr elusen ac i gydymffurfio â Deddf Elusennau 1993, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau'r Weithred Ymddiried. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a datgelu twyll ac anghysondebau eraill.

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ac awdurdodwyd ar gyfer cyhoeddi ar 5ed Gorffennaf 2012 a llofnodwyd ar eu rhan gan:

**David Hinchliffe**
**Trysorydd**
**5ed Gorffennaf 2011**





# Datganiad o Weithgareddau Ariannol

## Ar gyfer y 12 Mis yn dod i ben 31 Mawrth 2012

| | Nodyn | Cronfeydd Digyfyngiad | Cronfeydd Cyfyngedig | Cyfanswm 2012 | Cyfanswm 2011 |
|---|---|---|---|---|---|
| ADNODDAU I MEWN | | | | | |
| **Incwm a dderbyniwyd o nawdd a gynhyrchwyd** | | | | | |
| Rhoddion, grantiau a nawdd | **4** | **127** | **108,040** | **108,167** | **46,628** |
| Cefnogaeth heb fod yn arian ar gyfer Cyfiawnder mewn Diwrnod | | | 20,000 | 20,000 | |
| Incwm heb fod yn arian | **7** | | **35,552** | **35,552** | **36,177** |
| Gweithgareddau cynhyrchu incwm | | | | | |
| Ailgylchu ffonau symudol | | 542 | | 542 | 501 |
| Buddsoddiad Incwm | | | 125 | 125 | 124 |
| | | 669 | 163,717 | 164,386 | 83,430 |
| ADNODDAU A DDEFNYDDIWYD | | | | | |
| **Gwariant Elusennol Uniongyrchol** | 5 | | | | |
| **Gweithgareddau Elusennol** | | | | | |
| Grantiau a Ddyfarnwyd | | | 41,498 | 41,498 | 46,387 |
| Costau Cyfiawnder Mewn Diwrnod | | | 23,542 | 23,542 | 0 |
| Grantiau Trechu Trosedd Clwyd | | | 7,757 | 7,757 | 7,789 |
| Grantiau Trechu Trosedd Gwynedd | | | 5,792 | 5,792 | 6,000 |
| **Cost cyflwyno grantiau** | | 0 | 78,589 | 78,589 | 60,176 |
| Cyfiawnder Mewn Diwrnod Heb for yn Arian | | | 20,000 | 20,000 | |
| **Cost Cynhyrchu Incwm** | 5 | | 37,644 | 37,644 | 38,005 |
| **Costau Llywodraethu** | 5 | | 3,056 | 3,056 | 2,042 |
| **CYFANSWM ADNODDAU A DDEFNYDDIWYD** | | 0 | 139,289 | 139,289 | 100,223 |
| **ADNODDAU NET I MEWN** | | **669** | **24,428** | **25,097** | **-16,793** |
| **CYFANSWM CRONFEYDD A DDUCPWYD YMLAEN** | | 2,245 | 69,136 | 71,381 | 88,174 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN** | | 2,914 | 93,564 | 96,478 | 71,381 |

# Mantolen

## Fel ar 31ain Mawrth 2012

| | Noder | 2012<br>£ | 2010<br>£ |
|---|---|---|---|
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 9 | 7,000 | - |
| Arian Parod yn y Banc | | 108,496 | 72,288 |
| | | 115,496 | 72,288 |
| **Credydwyr** | | | |
| Croniadau | 10 | 19,018 | 907 |
| | | **96,478** | **71,381** |
| **Cronfeydd wrth Gefn** | | - | - |
| **Cyfyngedig** | | 93,564 | 69,136 |
| **Digyfyngiad** | | 2,914 | 2,245 |
| TOTAL FUNDS | | **96,478** | **71,381** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 12 - 16 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd ar gyfer eu cyhoeddi gan yr Ymddiriedolwyr ar 5ed Gorffennaf a llofnodwyd ar eu rhan gan

**David Hinchliffe**
**Trysorydd**
**5ed Gorffennaf 2012**










# Nodiadau ar y Cyfrifon

## 1. Polisïau Cyfrifyddu

Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu wedi'u crynhoi isod. Cafodd y polisïau cyfrifyddu eu rhoi ar waith mewn dull cyson drwy gydol y flwyddyn hon a'r flwyddyn flaenorol.

**a) Sylfaen Cyfrifyddu**

Llunnir y cyfrifon ar sail croniadau ac yn unol â'r datganiad o Arfer Argymelledig: Cyfrifyddu ac Adrodd ar ran Elusennau, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2005.

**b) Cyfrifyddu Cronfeydd**

- Mae Cronfeydd Digyfyngiad ar gael i'w defnyddio ar ddisgresiwn yr Ymddiriedolwyr i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen.
- Mae Cronfeydd Cyfyngedig yn destun cyfyngiadau ar eu gwariant a bennir gan y sawl a'u cyfrannodd.

**c) Adnoddau i Mewn**

Mae'r holl adnoddau a dderbyniwyd yn cael eu cynnwys yn y datganiad o weithgaredd ariannol pan fydd gan yr elusen hawl i'r incwm ac y gellir meintioli'r swm yn eithaf cywir. Caiff y polisïau penodol canlynol eu rhoi ar waith mewn perthynas â chategorïau penodol o incwm:

- Derbynnir incwm gwirfoddol drwy grantiau a rhoddion a chaiff ei gynnwys yn llawn yn y Datganiad o Weithgaredd Ariannol pan y'i derbynnir Caiff grantiau, lle nad yw hawl yn amodol ar ddarpariaeth perfformiad penodol ar ran yr elusen, eu cydnabod pan fydd gan yr elusen hawl diamod i'r grantiau.
- Caiff gwasanaethau a chyfleusterau a roddir am ddim eu cynnwys ar eu gwerth i'r elusen ble gellir meintioli hyn.
- Cynhwysir incwm buddsoddiad pan yn dderbyniadwy.
- Caiff adnoddau a geir o grantiau, os ydynt yn berthnasol i berfformiad a darpariaethau penodol, eu cyfrifyddu wrth i'r elusen ennill yr hawl i gael ei hystyried drwy ei pherfformiad.

**d) Adnoddau a Wariwyd**

Cydnabyddir gwariant ar sail gronnus.Mae gwariant yn cynnwys unrhyw TAW na ellir ei gael yn ôl yn ei gyfanrwydd a chaiff ei riportio fel rhan o'r gwariant y mae'n berthnasol iddo:

- Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau hynny a gaiff yr elusen wrth ddarparu ei weithgareddau a'i wasanaethau ar gyfer ei fuddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y gellir eu clustnodi'n uniongyrchol i weithgareddau o'r fath a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol i'w cynnal.
- Mae costau Llywodraethu yn cynnwys y costau hynny sy'n gysylltiedig â diwallu gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen ac yn cynnwys ffioedd a chostau archwilio annibynnol cysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen.
- Dyrennir yr holl gostau rhwng categorïau gwariant y DoWA ar sail a ddyluniwyd i adlewyrchu'r defnydd o'r adnoddau. Clustnodir costau perthnasol i weithgaredd penodol yn uniongyrchol, a chaiff y gweddill eu dyrannu ar sail briodol e.e. ardal llawr.

## 2. Taliadau Cydnabyddiaeth Cyflogeion

Ni thalwyd unrhyw gyflogeion gan yr elusen yn ystod y cyfnod hwn. Cafodd gwasanaethau Rheolwr Prosiect/Cydlynydd Trechu Trosedd eu cyfrannu gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r gost hon wedi'i chynnwys yn y datganiad o weithgaredd ariannol.

## 3. Treuliau a Thaliadau Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolwyr

Ni dderbyniodd yr un o'r Ymddiriedolwyr nac unrhyw unigolion cysylltiedig eraill unrhyw daliadau cydnabyddiaeth yn ystod y cyfnod.

Ni ad-dalwyd treuliau'r Ymddiriedolwyr nac unrhyw unigolion cysylltiedig eraill yn ystod y cyfnod.

# Nodiadau ar y Cyfrifon

## 4. Rhoddion

| | Digyfyngiad<br>£ | Cyfyngedig<br>£ | Cyfanswm 2012<br>£ | Cyfanswm 2011<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru | | 36,000 | 36,000 | 12,100 |
| Cydlynydd Trechu Trosedd | | 5,647 | 5,647 | 14,931 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | | 11,310 | 11,310 | 2,205 |
| Llywodraeth Cymru/ART | | 21,000 | 21,000 | 10,000 |
| Nawdd/Grantiau Cyfiawnder Mewn Diwrnod | | 33,300 | 33,300 | |
| WCVA | | | 0 | 6,850 |
| Rhoddion Amrywiol | 127 | | 127 | 542 |
| Elusennau IR | | 783 | 783 | |
| | 127 | 108,040 | 108,167 | 46,628 |
| | | | | |
| Rhoddion/Cefnogaeth Cyfiawnder Mewn Diwrnod Heb for yn Arian Uniongyrchol | | | | |
| Comtek Network Sysytems Ltd | | 16,500 | 16,500 | |
| Prifysgol Glyndwr – defnydd o Ganolfan Catrin Finch | | 3,500 | 3,500 | |
| | 0 | 20,000 | 20,000 | 0 |

Mae incwm heb fod yn arian uniongyrchol yn cynrychioli nawdd o £16,500 gan Comtek Netword Systems Lit i dalu am yr actorion, a'r defnydd o Ganolfan Catrin Finch ym Mhrifysgol Glyndwr am wythnos, gwerth £3,500.





# Nodiadau ar y Cyfrifon

## 5. Cyfanswm adnoddau a wariwyd

| | Costau staff £ | Costau eraill £ | Cyfanswm 2012 £ | Cyfanswm 2011 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau Elusennol** | | | | |
| Grantiau a Ddyfarnwyd | | 55,047 | 55,047 | 60,176 |
| Cyfiawnder Mewn Diwrnod | | 23,542 | 23,542 | |
| Cefnogaeth Cyfiawnder Mewn Diwrnod Heb for yn Arian Uniongyrchol | | 20,000 | 20,000 | |
| Amser staff a gyfrannwyd a threuliau | 32,220 | | 32,220 | 32,845 |
| Costau Swyddfa a gyfrannwyd | 3,332 | | 3,332 | 3,332 |
| Costau Amrywiol | | 2,092 | 2,092 | 1,828 |
| | 35,552 | 100,681 | 136,233 | 98,181 |
| | | | | |
| **Costau Llywodraethu** | | | | |
| Ffioedd Archwilio Annibynnol | | 1,293 | 1,293 | 2,042 |
| Ffioedd Amrywiol | | 1,763 | 1,763 | |
| **CYFANSWM** | **35,552** | **103,737** | **139,289** | **100,223** |

Mae'r holl grantiau a ddyfarnwyd yn y Flwyddyn yn berthnasol i weithgareddau a phrosiectau cymunedol.

## 6. Llog

Cyfanswm y llog banc a dderbyniwyd gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y cyfnod tan 31 Mawrth 2012 oedd £125 (2011: £124) £124).

## 7. Cefnogaeth Heddlu Gogledd Cymru

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ddiolchgar i Heddlu Gogledd Cymru am eu cefnogaeth barhaus, gan na allai'r Ymddiriedolaeth fodoli'n effeithiol heb y gefnogaeth hon. Mae HGC wedi gwneud y rhoddion heb fod yn arian canlynol i gefnogi PACT.

| | 2012 £ | 2011 £ |
|---|---|---|
| Amser staff a gyfrannwyd a threuliau | 32,220 | 32,845 |
| Swyddfeydd | 3,332 | 3,332 |
| | **35,552** | **36,177** |

# Nodiadau ar y Cyfrifon

## 8. Treth

Fel elusen, mae Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned Gogledd Cymru wedi'i eithrio rhag talu treth ar incwm ac enillion sy'n dod dan Adran 505 Deddf Trethi 1988 neu A256 Deddf Trethiant ac Enillion Trethadwy 1992 os defnyddir y rhain i ddiwallu ei amcanion elusengar. Nid oes unrhyw drethi wedi bod yn berthnasol i'r elusen.

## 9. Dyledwyr: Symiau sydd i'w derbyn mewn un flwyddyn:

Mae Dyledwyr yn berthnasol i Nawdd Ymgyrch Grant y Gwanwyn 2012 a dderbyniwyd mewn blwyddyn ariannol ddilynol.

| | 2012 £ | 2011 £ |
|---|---|---|
| Dyledwyr | 7,000 | 0 |
| | **7,000** | **0** |

## 10. Credydwyr: Symiau sy'n ddyledus mewn un Flwyddyn:

Mae croniadau credydwyr yn berthnasol i lwfans o £907 am Archwiliad Annibynnol blynyddol, a £18,111 perthnasol i Gostau Cyfiawnder Mewn Diwrnod a dalwyd mewn blwyddyn ariannol ddilynol.

| | 2012 £ | 2011 £ |
|---|---|---|
| Croniadau | 19,018 | 907 |
| | **19,018** | **907** |

## 11. Datganiad Cyfrifon 31 Mawrth 2012

| | 31/03/2011 | Incwm | Gwariant | Trosglwyddiadau | 31/03/2012 |
|---|---|---|---|---|---|
| Trechu Trosedd | 24,309 | 5,712 | 8,728 | | 21,293 |
| Trechu Trosedd Gwynedd | 18,713 | 11,370 | 6,913 | | 23,170 |
| Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol | 823 | 21,000 | 23,151 | | -1,328 |
| Cyfiawnder Mewn Diwrnod | | 33,300 | 23,542 | 9,425 | 19,183 |
| Cyfiawnder Mewn Diwrnod heb fod yn arian uniongyrchol | | 20,000 | 20,000 | | 0 |
| WCVA | 2,108 | | | (2,108) | 0 |
| Cynllun Talu'n ôl i'r Gymuned | 7,317 | | | (7,317) | 0 |
| Elusennau IR | 3,917 | 783 | | | 4,700 |
| AHGC | 11,949 | 36,000 | 21,403 | | 26,546 |
| | 69,136 | 128,165 | 103,737 | 0 | 93,564 |
| Incwm heb fod yn arian uniongyrchol | | 35,552 | 35,552 | | |
| Cronfeydd Digyfyngiad | 2,245 | | 669 | | 2,914 |
| | **71,381** | **164,386** | **139,289** | **0** | **96,478** |














# Nodiadau ar y Cyfrifon

- **Trechu Trosedd Clwyd a Gwynedd:** Defnyddir yr arian ar gyfer grantiau i bobl ifanc rhwng 5 a 25 i ddatblygu dinasyddiaeth dda a mentrau atal trosedd sy'n codi ymwybyddiaeth o faterion diogelwch cymunedol.
- **Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol** arian ar gyfer Timau Plismona Cymdogaeth er mwyn iddynt ymgysylltu â phobl ifanc, ac arian i gefnogi mentrau a gweithgareddau dargyfeiriol yn ystod cyfnod Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt.
- **Cyfiawnder Mewn Diwrnod:** Grantiau, nawdd ariannol a chefnogaeth heb fod yn arian uniongyrchol i ddatblygu a darparu'r rhaglen mewn ysgolion yng Ngogledd Cymru.
- **WCVA:** Nawdd i gefnogi'r prosiect Cyfiawnder Mewn Diwrnod. Addasiad Trosglwyddo wedi'i wneud
- **Cynllun Talu'n ol i'r Gymuned:** Arian i redeg prosiect drama ieuenctid 'Cyfiawnder Mewn Diwrnod'. Addasiad Trosglwyddo wedi'i wneud
- **Elusennau IR/Gift Aid:** Gift Aid a dderbyniwyd ar roddion
- **AHGC:** Nawdd o Gronfa Deddf Eiddo'r Heddlu y mae PACT yn ei reoli ar ran Awdurdod yr Heddlu Gogledd Cymru.
- **Incwm heb fod yn arian uniongyrchol:** Cymorth a gafwyd gan Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru.

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Elusen Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned (PACT)

Adroddaf ar gyfrifon y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 fel y'i gwelir ar dudalennau 10 i 16.

## Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Archwiliwr

Ymddiriedolwyr yr elusen sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon. Mae Ymddiriedolwyr yr elusen yn ystyried nad oes angen awdit eleni (dan Adran 43(2) Deddf Elusennau 1993 (deddf 1993) a bod angen archwiliad annibynnol

Fy nghyfrifoldeb i yw:

- archwilio'r cyfrifon dan Adran 43 o Ddeddf 1993
- Dilyn y gweithdrefnau a bennwyd yng Nghyfarwyddiadau Cyffredinol y Comisiwn Elusennau. (dan Adran 43(7)(B) o Ddeddf 1993); a
- Datgan a oes unrhyw faterion penodol wedi dod i'm sylw.

## Yr hyn y mae adroddiad yr Archwilydd Annibynnol yn seiliedig arno.

Cynhaliwyd f'archwiliad yn unol â Chyfarwyddiadau Cyffredinol y Comisiynwyr Elusennau. Mae archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r cofnodion cyfrifyddu a gedwir gan yr elusen a'u cymharu â'r cyfrifon a gyflwynwyd gyda'r cofnodion hynny. Y mae archwiliad hefyd yn cynnwys rhoi ystyriaeth i unrhyw eitemau neu ddadleniadau anarferol yn y cyfrifon a cheisio eglurhad gennych chi fel ymddiriedolwyr ynghylch unrhyw faterion o'r fath. Nid yw'r gweithdrefnau hyn yn darparu'r holl dystiolaeth a fyddai'n angenrheidiol mewn awdit, felly nid wyf yn mynegi barn awdit ar yr hyn a welais yn y cyfrifon.

## Datganiad yr Archwilydd Annibynnol

Mwn perthynas â'm harchwiliad, nid oes unrhyw fater wedi dod i'm sylw sydd:

1) Wedi rhoi achos rhesymol i mi gredu na chafodd y gofynion i wneud yr isod eu diwallu mewn unrhyw ffordd faterol, sef:

- cadw cofnodion cyfrifyddu yn unol ag Adran 41 o Ddeddf 1993; a
- Paratoi cyfrifol sy'n cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu, ac i gydymffurfio â gofynion cyfrifyddu'r ddeddf.

Nac ychwaith

2) Bod unrhyw fater y dylid yn fy marn i dynnu sylw ato er mwyn galluogi dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon.

**Gardners Accountants Limited**
**Cyfrifyddion Siartredig**
**Brynford House**
**21 Stryd Brynford**
**Treffynnon**
**Sir y Fflint**
**CH8 7RD**

**Gorffennaf 5 2012**










# ATODIAD 1

## PACT: Prif Grantiau

| | £ |
|---|---|
| Bugeiliaid Stryd Bangor | 1,500 |
| Conwy & Denbighshire Bus Stop - Rhaglen Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - Cymdeithas Tai Clwyd | 2,550 |
| Twrnamaint Pêl-droed Taclo Cyffuriau Gogledd Cymru (RhYC) | 1,150 |
| Dim Parth Galwyr Digroeso Ynys Môn | 982 |
| SCCH Arwel Jones - Masgot yr Heddlu | 490 |
| Menter Ieuenctid Halkyn Veterans | 500 |
| Cymorth i Ddioddefwyr - Taflenni Iaith Gymraeg | 595 |
| Cynllun Gwarchod Coetiroedd - Abergele | 500 |
| Menter Diogelwch y Ffyrdd Wrecsam @ Dangerpoint | 626 |
| Menter Pêl-droed Ieuenctid Wrecsam | 450 |
| | |
| **CYFANSWM** | **9,343** |

# ATODIAD 2

**PACT: Cronfa Grantiau PACT Cronfa Grantiau Bach**

| | £ |
|---|---|
| Clwb Pêl-droed Ieuenctid Mynydd Isa - Nawdd blynyddol ar gyfer y Twrnamaint Pêl-droed | 200 |
| SCCH Kim Shurmer - Canolfan Ddawns Buckley Bedazzled - menter ymgysylltu â'r ifanc | 200 |
| SCCH Sabrina Illman-Edwards - Eglwys Bae Cinmel, Ymgysylltu â Phobl Ifanc dros yr haf | 150 |
| SCCH Lydia Johnson - Diwrnod Ymwybyddiaeth o Droseddau ar gyfer trigolion mewn oed Llai | 150 |
| Cymorth i ddioddefwyr - Taflenni Atal Byrgleriaethau Tynnu Sylw | 90 |
| Menter arwyddion diogelwch sy'n cael eu hysgogi gan gerbyd - Tîm Diogelwch y Ffordd Conwy | 500 |
| SCCH Alison Williams - ymweliad trigolion hŷn Gaerwen â safle hofrennydd HGC Airbase | 200 |
| PC Geoff Wearing - Gwersyll Pêl-droed GCI Sir y Fflint | 400 |
| SCCH Mike Rowley - Prestatyn Athletic Juniors | 250 |
| SCCH Lydia Johnson - Clwb Ieuenctid Llai | 300 |
| SCCH Adrian Williams - Grŵp Cymunedol y Fali | 200 |
| SCCH Katy Hughes - menter seiclo diogel Caergybi | 250 |
| Rhingyll Neal Parkes - Twrnamaint Criced Ieuenctid Heddlu Gogledd Cymru | 108 |
| PCSO Dave Jones - Menter Bowls Ieuenctid Llanelwy | 140 |
| SCCH Kim Shurmer - Sharonettes Morris Dancing Troupe | 200 |
| PC Meirion Williams - prosiect cysylltu dosbarthiadau | 250 |
| SCCH Louise Wigglesworth - 1st Mochdre Cubs | 250 |
| SCCH Adrian Williams - Ymgyrch Atal Trosedd Ynys Môn | 275 |
| SCCH Sarah Jones - Clwb Ieuenctid Newry | 200 |
| SCCH Iona Beckman - Ymgyrch Atal Trosedd y Nadolig | 250 |
| SCCH Cefyn Roberts - Digwyddiad Rhyngenhedlaeth Nadolig Llanfair PG | 120 |









# ATODIAD 2


| PACT: Cronfa Grantiau PACT Cronfa Grantiau Bach | £ |
|---|---|
| PS Emma Williams - Caernarfon Neighbourhood Watch initiative | 249 |
| SCCH Erin Shawcross - Acton/Borras Wellbeing Information Event | 150 |
| SCCH Adrian Williams - Digwyddiad Diogelwch y Nadolig y Fali a Gwalchmai | 150 |
| SCCH Ben Madeley - Digwyddiad diogelwch trigolion hŷn Llanferres | 250 |
| SCCH Ceri Evans A SCCH Andrea Lawrence - Ymgyrch Diogelwch Beics Wrecsam | 500 |
| SCCH Janice Kane - Ymgyrch Atal Trosedd y Nadolig Wrecsam | 240 |
| PC Sue Davies Ysgol Uwchradd Tywyn - Ymgyrch Triwantiaeth | 220 |
| PC Hazel Goss Christmas Ymgyrch Atal Trosedd Wrecsam a Sir y Fflint | 1000 |
| SCCH Gareth Jones - Larymau Ymosodiad Personol Gwarchod y Gymdogaeth Prestatyn a Meliden | 200 |
| PC Petra Ashton - Ysgol Goffa Wood CP , Saltney, Offer chwaraeon | 250 |
| PC Hazel Goss UV marker pen campaign Flintshire | 300 |
| SCCH Kelly Tatlock - Prosiect Amgylcheddol, y Fali | 324 |
| SCCH Tom Dewberry - Ysgol Gynradd Rhosymedre – Project 'Synnwyr Diogelwch' | 114 |
| DC Steve Lewis – Twrnamaint Pêl droed Ieuenctid Mynydd Isa | 200 |
| SCCH Katy Hughes - Clwb Ieuenctid Penysarn | 200 |
| PS Emma Williams - Bwrdd Arddangos Llysfaen | 75 |
| SCCH Mark Hughes - Clwb Bocsio Bermo | 200 |
| SCCH Niki Lodge - Grŵp Chwarae Llysfaen | 130 |
| SCCH Peter Griffiths - Tîm Pêl Droed Ieuenctid Conwy Utd | 150 |
| **CYFANSWM** | **9,583** |
| Llai sieciau heb eu cyflwyno | 579 |

# ATODIAD 3

**Ymgyrch B.A.N.G. Tachwedd 2011**

| | |
|---|---|
| SCCH Janice Hughes, Llanfaes - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Janice Hughes, Biwmares - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Dennis Owen, Amlwch - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Francis Long, Rhuthun - Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Fiona Jones, Llanfairfechan - Nos Galan Gaeaf | 90 |
| SCCH Fiona Jones, Llanfairfechan - Tân Gwyllt | 90 |
| SCCH Poppy Hadfield-Jones, Ystâd Ddiwydiannol - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| PC Kath Lake-Bullen, Tywyn - Tân Gwyllt | 140 |
| PC Kath Lake-Bullen, Tywyn - Nos Galan Gaeaf | 195 |
| SCCH Lydia Johnson, Gresfordd - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Adrian Williams, Gwalchmai - Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Adrian Williams, Gwalchmai - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Louise Wigglesworth, Glanwydden - Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Iona Beckman, Benllech - Tân Gwyllt | 200 |
| PC Edwards, Blaunau Ffestiniog - Tân Gwyllt | 200 |
| PC Pam Hayers, Llandudno - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Kelly Ellis, Llai- Nos Galan Gaeaf | 140 |
| SCCH Louise Wigglesworth, Mochdre - Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Sharon Jones, Pwllheli - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Arwel Jones, Llangefni - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| PC Geraint Williams, Llangefni - Nos Galan Gaeaf | 200 |






# ATODIAD 3

## Ymgyrch B.A.N.G. Tachwedd 2011


| | |
|---|---|
| PC Richard Hopkins, Bae Colwyn - Nos Galan Gaeaf | 176 |
| SCCH Angela Ashworth, Wrecsam Garden Village - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Angela Ashworth, Wrecsam Garden Village - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Jill Buerdsell, Llanrwst - Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Robina Ahmed, Wrecsam - Nos Galan Gaeaf | 170 |
| SCCH Kerry Vaughan, Bryn y Grog - Tân Gwyllt | 100 |
| SCCH Kerry Vaughan, Bryn y Grog - Nos Galan Gaeaf | 100 |
| SCCH Iona Beckman, Moelfre - Nos Galan Gaeaf/Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Sarah Jones, Caergybi - Nos Galan Gaeaf | 150 |
| SCCH Sarah Jones, Caergybi - Nos Galan Gaeaf/Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Katy Hughes, Amlwch - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Alison Williams, Gaerwen - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Gethin Edwards, Felinheli - Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Adrian Williams, Y Fali - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Susan Holmes, Glannau Dyfrdwy - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| PC Hazel Goss, Diogelwch Cymunedol - Tân Gwyllt | 200 |
| PC Hazel Goss, Diogelwch Cymunedol - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| PC Sarah Jones, Caergybi - Tân Gwyllt | 200 |
| PC Sarah Jones, Caergybi - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Matthew Preston, Bae Colwyn - Nos Galan Gaeaf | 100 |
| SCCH Gail Starr, Llandudno - Tân Gwyllt | 200 |

# ATODIAD 3

**Ymgyrch B.A.N.G. Tachwedd 2011**

| | |
|---|---|
| PC Les Jones Rhyl - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Niki Lodge, Llanddulas - Nos Galan Gaeaf | 195 |
| SCCH Arwel Jones, Talwrn, Llangefni - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| PC Gareth Edwards, Aberdyfi, Tywyn - Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Mark Hughes, Y Bermo - Tân Gwyllt | 200 |
| PCSO Alexandra Jones, Rhyl - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| PCSO Suzanne Wharton, Prestatyn - Nos Galan Gaeaf/Tân Gwyllt | 200 |
| PCSO Sarah Hardie, Y Fali - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| PC Delyth Bryan, Caernarfon - Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH David Jenkins Cefn Mawr, Wrecsam - Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Martin Nash, Henllan - Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Geraint Wiliams, Llangefni - Tân Gwyllt | 200 |
| PC Janette Stott, Yr Wyddgrug - Tân Gwyllt | 200 |
| PC Janette Stott, Yr Wyddgrug - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Tim Parker, Abergele - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| PC Harris, Corwen - Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Tim Parker, Abergele - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Gareth Price, Garden City/Sealand - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Richard Greaves, Nefyn - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Sabrina Illman-Edwards, Bae Cinmel - Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Katy Hughes, Amlwch - Nos Galan Gaeaf | 200 |






# ATODIAD 3

## Ymgyrch B.A.N.G. Tachwedd 2011

| | |
|---|---|
| SCCH Emily Williams, Cefn Mawr, Wrecsam - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Andrea Ellis, Coed Llai - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Kirsty Colgate, Maesgeirchen, Bangor - Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Tim Parker, Abergele - Nos Galan Gaeaf | 50 |
| SCCH Gareth Jones, Rhyl - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH David Jones, Llanelwy - Nos Galan Gaeaf | 150 |
| PC Ian Millington, Saltney Ferry - Nos Galan Gaeaf | 170 |
| SCCH Sian Atkinson, Cei Connah - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Wendy Harris, Gresfordd - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Bryn Roberts, Rhuddlan - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| SCCH Liz Norman, Dinbych - Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Julie Holland, Penygroes - Tân Gwyllt | 120 |
| SCCH Niki Lodge, Colwyn Bay - Tân Gwyllt | 190 |
| SCCH Chris Kendall, Mostyn - Nos Galan Gaeaf | 200 |
| PC Chris Davies, Dinbych - Nos Galan Gaeaf/Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Naomi Hill, Llandrillo yn Rhos - Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Stuart Roberts, Rhos, Nos Galan Gaeaf/Tân Gwyllt | 200 |
| SCCH Michelle Williams, Llanrwst/ Cerrigydrudion - Tân Gwyllt | 200 |
| | |
| **CYFANSWM** | **15,126** |

# ATODIAD 4

## Grantiau'r Pasg 2012

| | |
|---|---|
| SCCH Iona Beckman, Moelfre | 150 |
| SCCH Adrian Williams, Gwalchmai | 100 |
| SCCH Adrian Williams, Y Fali | 195 |
| SCCH Suzane Wharton, Prestatyn | 200 |
| SCCH Phil Jones, Gwersyllt | 80 |
| SCCH Kirsty Colgate, Maesgeirchen, Bangor | 200 |
| SCCH Adrian Williams, Llanfachraeth | 200 |
| SCCH Michael Couling, Llanberis | 200 |
| PC Eifion Jones, Pwllheli | 200 |
| SCCH Iona Beckman, Benllech, Tynygongl | 200 |
| SCCH Cefyn Roberts, Llanedwen | 200 |
| SCCH Katy Hughes, Amlwch | 200 |
| SCCH Katy Hughes, Pensarn | 200 |
| SCCH Gareth Price, Sealand Manor | 200 |
| SCCH Martin Griffiths, Rhiwabon | 200 |
| PC Ian Millington, Saltney | 200 |
| SCCH Niki Lodge, Abergele | 344 |
| SCCH Sabrina Illman-Edwards, Bae Cinmel | 200 |
| SCCH Lydia Johnson, Llai | 200 |
| SCCH Pete Colley, Cyffordd Llandudno | 200 |
| SCCH Angela Ashworth, Ysgol Uwchradd Rhosnesni | 83 |










# ATODIAD 4

## Grantiau'r Pasg 2012

| | |
|---|---|
| PC Stephanie Ball, Rhyl | 200 |
| PC Geoff Wearing, Bwcle | 198 |
| SCCH Sarah Hardie, Rhosneigr | 200 |
| SCCH Peter Griffiths, Conwy | 200 |
| SCCH Karen Bennison, Bae Colwyn | 120 |
| SCCH Emma Jones, Blaenau Ffestiniog | 90 |
| SCCH Emma Jones, Blaenau Ffestiniog | 90 |
| SCCH Steve Phelps, Porthmadog | 200 |
| SCCH Naomi Hill, Llandrillo yn Rhos | 150 |
| SCCH Dan Hughes, Saltney | 135 |
| SCCH Paula Stewart, Penrhyndeudraeth | 80 |
| SCCH Paula Stewart, Penrhyndeudraeth | 120 |
| SCCH Lynn Turner, Yr Wyddgrug | 200 |
| SCCH Mike Smith, Llandudno | 200 |
| SCCH Mark Hughes, Y Bermo | 200 |
| SCCH Nikki Adams, Conwy | 200 |
| PC Steve Edwards, Rhyl | 200 |
| SCCH Pam Hayers, Llandudno | 200 |
| SCCH Julie Holland, Penygroes | 200 |
| SCCH Julie Holland, Talysarn | 200 |
| PC Jim Jones, Rhuddlan | 200 |

# ATODIAD 4

## Easter Grants 2012

| | |
|---|---|
| SCCH Dave Jones, Llanelwy | 130 |
| SCCH Dave Jones, Llanelwy | 200 |
| SCCH Angela Ashworth, Wrecsam | 160 |
| | |
| **CYFANSWM** | **8,025** |





# ATODIAD 5

## Grantiau Trechu Trosedd Clwyd

| | |
|---|---|
| Clwb Hwyl Hwyr -Yn ein Cymuned ( Prestatyn) | 215 |
| Prosiect Gwirfoddoli Pobl Ifanc Ysgol Uwchradd Castell Alun | 451 |
| “Youth for Buckley” - Clwb Bocsio Bwcle | 400 |
| Clwb Ieuenctid Llai - digwyddiad noson tân gwyllt | 200 |
| “Where’ It’s At…” Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir y Fflint | 499 |
| Calendrau Atal Trosedd a Diogelwch HGC | 358 |
| Greencare Sir Ddinbych - Groundwork Gogledd Cymru | 378 |
| Prosiect Ieuenctid Dinbych | 500 |
| Clwb Ieuenctid Llandudno - Rhaglen Gweithgareddau’r Haf | 482 |
| Clwb Ieuenctid Llandudno prosiect CD rap “Say No” | 600 |
| Cyngor Ieuenctid Saltney - prosiect ymgysylltiad pobl ifanc | 200 |
| Project cydlyniad cymunedol Brychdyn a Bretton | 500 |
| Ysgol Gynradd Plas Coch - Posteri Diogelwch y Nadolig | 200 |
| “Dyfodol Positif” - Tîm Cyffuriau ag Alcohol Pobl Ifanc Sir y Fflint | 500 |
| Uwch Y Dre Eco Crew, Corwen | 363 |
| “Is It Worth It?” - Ysgol John Bright | 250 |
| West Rhyl Marshalls - PC Steve Edwards | 500 |
| Criw Diogelwch Coleg Llandrillo - Taith Plant Diogel | 500 |
| Ysgol Gynradd Rhosymedre - Synnwyr Diogelwch | 210 |
| “Keep Fit”, Get Motivated” - C.J.I.W. | 451 |
| Prosiect Homenet (Quay Project) - Clwyd Alyn | 500 |
| | |
| **CYFANSWM** | **8,257** |
| Llai siec heb ei chyflwyno 2010/11 | 500 |

# ATODIAD 5

## Grantiau Trechu Trosedd Gwynedd

| | |
|---|---|
| Digartref Ynys Môn - Prevention's Better Than Cure | 500 |
| Balchder Cymunedol Ynys Môn | 500 |
| Twrnamaint Pêl-droed yr Haf y Fali | 300 |
| Porth y Felin Watering Can Prosiect Rhyngenhedlaeth - Caergybi | 400 |
| Anglesey Good Young Neighbour Summer Initiative | 330 |
| Nawdd Llongau Tal - Toby Humphries | 481 |
| "Hooked On Fishing", Pwllheli | 636 |
| Mona Liga 2012 | 450 |
| "Our Voice" - Gisda | 507 |
| "Be Safe Be Seen", Caernarfon | 267 |
| "Iwth Pen" - SCCH Julie Holland a Chlwb Ieuenctid Penygroes | 300 |
| Band Arian Llanrug | 472 |
| Clwb Ieuenctid Maesgeirchen - project graffiti | 200 |
| BOCS - Press Gang, Caernarfon | 499 |
| Digartref Ynys Môn - noson wobrwyo | 100 |
| Balchder Cymunedol y Fali - noson wobrwyo | 100 |
| Ysgol Uwchradd Tywyn - noson wobrwyo | 100 |
| | |
| **CYFANSWM** | **6,142** |
| Llai siec heb ei chyflwyno 2010/11 | 350 |





# ATODIAD 6

**Hoffai'r Ymddiriedolwyr ddiolch i'r sefydliadau canlynol am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn:**

| |
|---|
| Clwyd Theatr Cymru |
| Comtek Network Systems Ltd |
| Ifor Williams Trailers Ltd |
| Magnox (Wylfa a Trawsfynydd) |
| Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol HGC |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Heddlu Gogledd Cymru |
| Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru |
| Ron Owen, Diwrnod Golff Celyn |
| Cronfa Addysg Thomas Howell ar gyfer Gogledd Cymru |
| Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam |

